ASEINIAD

GWNEIR YR ASEINIAD HWN y _____ dydd o _____200__

RHWNG:-

(1) S4C o Barc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DU ("S4C") sef ymadrodd sy'n cynnwys ei holynwyr, ei haseineion a'i Chwmnïau Teulu; a
(2) [ ] o [ ] ("y Cynhyrchydd")

RHAGARWEINIAD

(A) Mae S4C wedi cyhoeddi canllawiau ar ad-aseinio hawliau penodol mewn rhaglenni cymwys i'r endid cynhyrchu gwreiddiol. Mae'r canllawiau hyn ar gael yma.

(B) Mae'r Cynhyrchydd wedi gofyn am Ad-aseiniad mewn perthynas â'r Rhaglen ac mae S4C wedi cytuno i'r Ad-aseiniad yn unol ag amodau'r Aseiniad hwn.

CYTUNDEB

Mewn cydnabyddiaeth am i S4C gytuno i ad-aseinio'r Hawliau Ad-aseiniedig i'r Cynhyrchydd, cytunir ar y canlynol:-

1. Diffiniadau a Dehongliad

Yn yr Aseiniad hwn, bydd gan y geiriau canlynol yr ystyron canlynol:-

"Ad-aseiniad/Ad-aseinio": Ad-aseinio'r Hawliau Ad-aseiniedig i'r Cynhyrchydd;

"yr Ataliad": y cyfyngiad ar ymelwa a ddisgrifir yng Nghymal 5 a fydd, oni bai y caiff ei ymestyn yn unol â Chymal 5.2 neu onibai y nodir fel arall yn yr Atodiad, yn weithredol cyn darllediad cyntaf y Rhaglen (a phob pennod ohoni) gan S4C ac yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod o bum (5) blwyddyn galendr ers darllediad cyntaf y Rhaglen neu (pan fo'r Rhaglen yn gyfres), darllediad y bennod olaf, pa un bynnag sydd hwyrach. Nodir dyddiad y darllediad cyntaf yn yr Atodiad;

"**Atodiad":** yr atodiad neu atodiadau i'r Aseiniad hwn. Lle bo S4C wedi cytuno i Ad-aseinio o ran mwy nag un Rhaglen, cynhwysir atodiad ar gyfer pob un;

"**Comisiynydd Gwybodaeth":** y comisiynydd gwybodaeth a benodwyd dan FOIA;

"Clipiau": Clipiau o'r Rhaglen fel y'i chyfleuwyd i S4C;

"Cod Ymarfer ar Gopïau Preifat": y cod ymarfer a gytunwyd rhwng TAC ac S4C fel y'i ddiweddarwyd o bryd i'w gilydd. Gellir cael copi o'r cod yma.

"Cwmnïau Teulu": unrhyw is-gwmni neu gwmni dal ac unrhyw is-gwmni o'r cyfryw gwmni dal (a chaiff "cwmni dal" ac "is-gwmni" eu diffinio yn Adrannau 736 a 736A Deddf Cwmnïau 1985);

"Cyfnod": am byth;

"Cynnwys S4C": y Rhaglen a'r fformat y caiff ei seilio arno a/neu unrhyw ran ohoni;

"Cytundebau Trydydd Parti": unrhyw a phob cytundeb y mae S4C wedi ymrwymo iddynt yn uniongyrchol gydag unrhyw drydydd parti parthed y Rhaglen gan gynnwys unrhyw gyfrannwr (cyfranwyr) i'r Rhaglen neu berchnogion deunydd trydydd parti y seiliwyd y Rhaglen arno neu a gynhwysir yn y Rhaglen, y nodir eu manylion yn yr Atodiad;

"Cytundeb Comisiynu": y cytundeb rhwng S4C a'r Cynhyrchydd lle y comisiynodd S4C y Cynhyrchydd i wneud y Rhaglen, y nodir ei fanylion yn yr Atodiad;

"Chwarter": cyfnod o 3 mis calendr yn dod i ben ar 30 Mehefin, 30 Medi, 31 Rhagfyr neu 31 Mawrth mewn unrhyw flwyddyn galendr o ddyddiad yr Aseiniad hwn;

"Deunydd Craidd": deunydd (ac eithrio cerddoriaeth y mae S4C yn berchen ar yr hawlfraint ynddi) a gynhyrchir wrth gynhyrchu'r Rhaglen ond nas defnyddir yn y Rhaglen fel y'i chyfleuir i S4C;

"Deunydd Hawliau Gwaelodol": unrhyw ddeunydd y seiliwyd y Rhaglen arno, lle bo'r hawlfraint a'r hawliau eraill yn eiddo i S4C yn rhinwedd y Cytundeb Comisiynu neu gytundeb datblygu blaenorol neu thrwy gyfrwng cytundeb uniongyrchol rhwng S4C a chyfrannwr **ond heb gynnwys yn benodol yr hawlfraint a'r holl hawliau eraill yn y gerddoriaeth a gomisiynwyd yn wreiddiol ar gyfer y Rhaglen, y cedwir y fath hawliau yn llwyr gan S4C;**

"Deunyddiau Cyfleu": bydd gan yr ymadrodd hwn yr un ystyr â'r diffiniad a nodir yn y Cytundeb Comisiynu;

"Diwrnod Gwaith": unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul neu Ŵyl gyhoeddus.

"DPRS": the Directors' and Producers' Rights Society;

"Elw Net y Cynhyrchydd": Incwm Gros Cynhyrchydd, llai cyfanswm y canlynol:

(i) comisiwn sy'n daladwy i'r Cynhyrchydd, ei asiantau a'i ddosbarthwyr o ran y Rhaglen, na fydd mewn cyfanswm yn uwch na'r canlynol fel canran o Incwm Gros y Cynhyrchydd:
Teledu 35%
Gwerthu i awyrennau/llongau/Clipiau 35%
Fideo a DAD 25%
Marsiandïaeth 35%
Cyhoeddi 30%

(ii) y costau gwirioneddol o werthu'r Rhaglen gan gynnwys costau printiau, taflenni, tapiau VHS, gweithgareddau lansio a hyrwyddo eraill, paneli, posteri, cludiant a thrafnidiaeth, Taliadau Ailddarlledu a Gweddill-daliadau a chost unrhyw waith technegol a gwaith arall sydd ei angen yn rhesymol i addasu'r Rhaglen er mwyn Ymelwa arni, ar yr amod na fydd y costau hyn mewn cyfanswm yn uwch na 5% o Incwm Gros y Cynhyrchydd;

"Elw Net S4C": Incwm Gros S4C llai yr holl gostau a threuliau comisiynu a ddioddefir wrth gynhyrchu Incwm Gros S4C;

"FOIA": Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac unrhyw ddeddfwriaeth eilradd a wneir dan y ddeddf honno o bryd i'w gilydd ac unrhyw arweiniad a/neu godau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch y cyfryw ddeddfwriaeth;

"Gwasanaethau S4C": S4C Analog, S4C Digidol, S4C2 ac unrhyw Sianel S4C Newydd;

"Gwybodaeth": yr ystyr a roddir i'r term yn adran 84 FOIA;

"Gwybodaeth Gyfrinachol": unrhyw wybodaeth ynghylch busnes, cyflenwyr neu gwsmeriaid y naill barti neu'r llall ac amodau'r Cytundeb hwn a/neu'r Trwyddedau sy'n Bodoli Eisoes a/neu'r Cytundebau Trydydd Parti ynghŷd ag unrhyw wybodaeth a ddynodwyd yn wybodaeth gyfrinachol gan y naill barti neu'r llall yn ysgrifenedig neu a ddylai gael ei hystyried yn gyfrinachol (pa fodd bynnag y caiff ei chyfleu neu ar ba gyfrwng bynnag y caiff ei storio) gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â materion, eiddo, asedau, arferion masnachu, datblygiadau, cyfrinachau masnachol, hawliau eiddo deallusol, medrau cyfrin y naill barti neu'r llall a'r holl ddata personol o fewn ystyr Deddf Gwarchod Data 1998;

"Hawliau Ad-aseiniedig": yn ddarostyngedig bob amser i'r Ataliad, yr hawlfraint yn y Rhaglen, y Deunydd Craidd a'r Deunydd Hawliau Gwaelodol a'r holl hawliau ymelwa yn y Rhaglen a'r Deunydd Hawliau Gwaelodol ac eithrio'r Hawliau Neilltuedig a gedwir yn benodol ac yn ddi-alw'n-ôl gan S4C am y Cyfnod;

"Hawliau Ad-drosglwyddo": yr hawl unigryw ac ecsgliwsif i ganiatáu sianelau trydydd parti i gynnwys y Rhaglen yn eu gwasanaethau rhaglenni (waeth be fo'r platfform a ddefnyddir ac os yw o fewn y Diriogaeth neu beidio) lle bo'r fath wasanaeth(au) yn

darlledu cynnwys Gwasanaethau S4C yn gyfan gwbl neu'n rhannol neu unrhyw rai ohonynt yn gydamserol, a'r hawl unigryw ac ecsgliwsif i gadw'r holl incwm sy'n deillio ohonynt;

"Hawliau Addysgol": yr hawl i ganiatáu i lyfrgelloedd ar archifau dynodedig (yn unol â Deddf Hawlfraint Dylunio a Phatentau 1988 (fel y'i diwygiwyd)) i baratoi a chadw copïau o'r Rhaglen; i roi caniatâd i ysgolion, colegau, prifysgolion, sefydliadau addysgol eraill, amgueddfeydd, canolfannau treftadaeth, cymdeithasau hanesyddol a chyrff elusennol neu gyrff 'anfasnachol' eraill i gael copïau o'r Rhaglen ac i'w harddangos a'u defnyddio at ddibenion addysgol neu archifol y cyfryw sefydliadau, a'r hawl i S4C i ddefnyddio'r Rhaglen a phob rhan ohoni ym mhob cyfrwng sy'n hysbys ar hyn o bryd neu a ddyfeisir wedi hyn, at ddibenion darparu gwasanaethau a chyfleusterau i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg ac at ddibenion addysgol eraill;

"Hawliau Adnewyddu": yr hawl unigryw ac ecsgliwsif i adnewyddu'r Trwyddedau sy'n Bodoli Eisoes ac i'w diwygio er mwyn awdurdodi ymelwa ar y Rhaglen mewn ffurfiau eraill (er enghraifft, ymestyn trwydded fideo i gynnwys disgiau amryddawn digidol);

"Hawliau An-Theatrig": yr hawl i arddangos y Rhaglen a/neu awdurdodi eraill i wneud hynny gerbron cynulleidfa o sefydliadau nad ydynt yn ymwneud â'r busnes o arddangos ffilmiau i'r cyhoedd yn bennaf, gan gynnwys sefydliadau diwylliannol, cymdeithasol a chrefyddol, busnesau, cymdeithasau dinesig, ysbytai;

"Hawliau Clipiau": i) yr hawl i ddefnyddio Clipiau a Deunydd Craidd mewn rhaglenni newydd a wneir ar gyfer Gwasanaethau S4C ac i ymelwa ar y cyfryw raglenni a phob rhan ohonynt (gan gynnwys y Clipiau a'r Deunydd Craidd) ym mhob cyfrwng ac ym mhob dull a modd sy'n hysbys ar hyn o bryd neu a ddyfeisir wedi hyn yn ystod cyfnod yr Hawlfraint a heb orfod gwneud taliad pellach i'r Cynhyrchydd neu unrhyw drydydd parti oni bai y cytunir fel arall yn y Polisi Clipiau a Deunydd Craidd; a'r
ii) hawl i ddefnyddio Clipiau a Deunydd Craidd mewn deunydd hyrwyddo ac ar wefannau ac ar Gyfryngau Newydd eraill fel y nodir yn yr Aseiniad hwn;

"Hawliau Cyfryngau Newydd": yr hawl i S4C (ac unrhyw ddarparwyr cynnwys trydydd parti, porth trydydd parti neu wasanaeth cyfryngau newydd trydydd parti y gall S4C eu trwyddedu o bryd i'w gilydd), ymelwa ar y Rhaglen a Chynnwys S4C, boed ar ben eu hunain neu fel rhan o unrhyw borth neu wasanaeth arall, yn y ffyrdd canlynol:

i) Ar-lein: trwy gyfathrebu a gwneud ar gael i'r cyhoedd yn y fath fodd di-rwystr ag y gall perchennog yr hawlfraint ynddo ei wneud, Gynnwys S4C trwy gyfrwng pob modd ar-lein sy'n hysbys ar hyn o bryd neu a ddyfeisir wedi hyn gan gynnwys (ond heb gyfyngiad) trwy gyfrwng y rhyngrwyd neu unrhyw rwydwaith ardal eang ('WAN'), rhwydwaith ardal leol ('LAN'), mewnrwyd, allrwyd neu rwydwaith gwifrog neu wedi'i seilio ar opteg ffeibrau (boed yn gweithredu ar sail band llydan neu fand cul), a waeth be fo'r dull trosglwyddo neu'r dechnoleg ddarlledu a ddefnyddir, megis TPW ('IPTV'-teledu protocol y ŵe), LTD ('DSL'-llinell tanysgrifio digidol) neu fel arall, a boed yn llinol neu'n rhyngweithiol; a

ii) Diwifr: trwy gyfathrebu, ymelwa ar a gwneud ar gael i'r cyhoedd yn y fath fodd di-rwystr ag y gall perchennog yr hawlfraint ynddo ei wneud, Gynnwys S4C trwy gyfrwng pob technoleg ddiwifr sy'n hysbys ar hyn o bryd neu a ddyfeisir wedi hyn gan gynnwys (ond heb gyfyngiad) system byd-eang ar gyfer dyfeisiadau cyfathrebu symudol ('GSM'), gwasanaeth radio pecyn cyffredinol ('GPRS'), 2.5 a 3G, darlledu sain digidol ('DAB'), darlledu fideo digidol–dyfeisiadau llaw ('DVB-H'), darlledu amlgyfryngol digidol-daearol ('T-DMB') neu fel arall a boed yn llinol neu'n rhyngweithiol.

Yn ogystal, bydd yr hawliau uchod:

- yn gallu cael eu hymarfer heb orfod poeni os ymelwir ar Gynnwys S4C trwy gyfrwng ffrydio neu lifo'r data (boed ar y un pryd ag unrhyw ddarllediad arall neu beidio) i'r dyfeisiau derbyn perthnasol neu thrwy recordio neu lawrlwytho (ac yn hyn o beth, bydd gan S4C a'i thrwyddeion yr hawl i awdurdodi'r cyhoedd i recordio, lawrlwytho, storio, ailffurfio, copïo a chadw Cynnwys S4C);
- yn gallu cael eu hymarfer beth bynnag fo'r dull masnachol neu'r model adwerthu o ddarparu'r cynnwys i'r cyhoedd y mae'r gwasanaeth neu'r porth y gall Cynnwys S4C ffurfio rhan ohono yn ei ddefnyddio, ac y gallant fod ar sail ddi-dâl neu am dâl, gan gynnwys tanysgrifiadau achlysurol, fideo ar gais, bron yn fideo ar gais neu fideo ar gais trwy danysgrifio, talu am wylio, talu am lawrlwytho neu fel arall;
- yn cynnwys ymelwa ar Gynnwys S4C ar a thrwy gyfrwng unrhyw systemau sy'n cyfuno elfennau ar-lein a diwifr, boed yn hysbys ar hyn o bryd neu a ddyfeisir wedi hyn, megis (heb gyfyngiad) systemau sy'n defnyddio llinellau gwifrau neu opteg ffeibrau sy'n cyrraedd y defnyddwyr ar ben y daith trwy pwyntiau cysylltu diwifr, megis WiMax a WiFi:
- yn cynnwys yr hawl i gyflawni'r holl esblygiadau technegol ag sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi S4C i ymelwa yn llawn ar yr Hawliau Cyfryngau Newydd (er enghraifft, i gopïo, trosglwyddo, storio dros dro a/neu'n barhaol ac ailffurfio'r Rhaglen);
- yn cynnwys yr hawl i ddelio â'r Rhaglen er mwyn hwyluso'r modd y cyflwynir y Rhaglen ar y sgrîn ar y gwasanaethau/pyrth cyfryngau newydd y caiff y Rhaglen ei hymelwa trwyddynt, (er enghraifft, i ychwanegu tros-haenau, hysbysebion baner, cysylltiadau a barrau tasgau/offer/llywio/dewislen a deunydd lapio i'r Rhaglen fel y bydd yn ymddangos ar y sgrîn);
- yn cynnwys yr hawl i dorri, golygu, ailffurfio, newid maint ac ail-becynnu'r Rhaglen ei hun yn ôl yr angen er mwyn ei haddasu i'r cyfrwng newydd penodol dan sylw;
- yn cynnwys yr hawl i gynnwys y Rhaglen a darnau ohoni mewn unrhyw systemau llywio, mewn "rhagflas", mewn hyrwyddiadau a chynigion am ddim a gynigir gan S4C neu unrhyw weithredwr porth/gwasanaeth a'r hawl i ychwanegu'r fath metadata ag sy'n angenrheidiol;
- yn cynnwys yr holl hawliau nawdd, hysbysebu a hyrwyddo cysylltiedig ym mha gyfrwng bynnag;
- yn cynnwys yr hawl i olygu/cwtogi'r cydnabyddiaethau; ac
- yn cynnwys yr hawl i ddefnyddio enwau, delweddau, lleisiau a thebygrwydd y cymeriadau sy'n ymddangos yn y Rhaglen at y dibenion uchod.

“Hawliau Cyhoeddi Cerddoriaeth”: yr hawl unigryw ac ecsgliwsif i ymelwa ar yr holl gerddoriaeth yn y Rhaglen lle bo’r hawlfraint wedi ei haseinio i S4C dan y Cytundeb Comisiynu a/neu yn unol â chytundeb rhwng S4C a’r cyfansoddwr a’r hawl unigryw ac ecsgliwsif i gadw’r holl incwm sy’n deillio o’r fath ymelwa;

“Hawliau Darlledu”: yr hawl unigryw ac ecsgliwsif yn ystod cyfnod yr Ataliad ac wedi hynny yr hawl an-ecsgliwsif i ddarlledu ac arddangos y Rhaglen a phob rhan ohoni ar Wasanaethau S4C trwy gyfrwng pob ffurf o deledu sy’n hysbys ar hyn o bryd neu a ddyfeisir yn y dyfodol, boed yn analog neu’n ddigidol, yn llinol neu’n rhyngweithiol, ar-lein neu’n ddiwifr a chan gynnwys trwy gyfrwng dulliau daearol, cebl a lloeren;

“Hawliau yr ERA”: yr hawl unigryw ac ecsgliwsif i ganiatáu i’r Educational Recording Agency Limited drwyddedu sefydliadau addysgol i recordio’r Rhaglen oddi ar yr awyr ac i’w defnyddio at ddibenion addysgol yn unol â’r cynllun(iau) trwyddedu a weithredir gan ERA o bryd i’w gilydd boed yn unol ag Adran 35 Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 (fel y’i diwygiwyd) neu fel arall a’r hawl i gadw’r holl incwm sy’n deillio ohoni;

“Hawliau Gwefan”: yr hawl i sefydlu, addasu a diweddaru gwefan (nau) Gymraeg neu ddwyieithog ar gyfer y Rhaglen ac i ddefnyddio Clipiau a Deunydd Craidd ar y wefan a/neu unrhyw wefan gorfforaethol neu wefan generig neu unrhyw wefan ar gyfer y rhai sy’n dysgu Cymraeg, sy’n cael ei brandio fel un S4C;

“Hawliau Hyrwyddo”: yr hawl unigryw ac ecsgliwsif i hyrwyddo, marchnata a hysbysebu Fersiwn Cymraeg y Rhaglen a’r ymelwa arni gan S4C, ac i’w defnyddio mewn gwaith marchnata corfforaethol ym mhob dull a modd arferol sy’n hysbys ar hyn o bryd neu a ddyfeisir yn y dyfodol, gan gynnwys:

i) trwy gyfrwng trêls neu hyrwyddiadau ar y sgrîn (a’r hawl i ddefnyddio Clipiau a Deunydd Craidd mewn trêls neu hyrwyddiadau o’r fath);
ii) trwy baratoi a rhyddhau crynodebau o’r Rhaglen i’r wasg ynghŷd ag erthyglau a deunydd arall ynghylch y Rhaglen, neu am yr unigolion sy’n cyfrannu at y Rhaglen;
iii) trwy gyfrwng hysbysebion radio, posteri, pamffledi, cardiau post;
iv) trwy arddangos clipiau neu ddarnau o’r Rhaglen yn gyhoeddus, e.e. yn ystod cyfarfodydd cyhoeddus neu arddangosfeydd, mewn gwyliau ffilm neu deledu, ar stondin S4C mewn digwyddiadau e.e. mewn eisteddfodau neu gemau rhyngwladol;
v) trwy arddangos y Rhaglen a/neu Glipiau a/neu’r Deunydd Craidd trwy gyfrwng Cyfryngau Newydd;
vi) trwy baratoi tapiau neu ddisgiau/tapiau arddangos corfforaethol a nwyddau neu ddeunyddiau corfforaethol tebyg (e.e. CD-ROMs neu DADs) (a’r hawl i ddefnyddio Clipiau neu Ddeunydd Craidd mewn unrhyw ddeunyddiau corfforaethol o’r fath);
vii) trwy gynnal arddangosiadau preifat neu arddangosiadau theatrig o’r Rhaglen;
viii) [trwy enwebu’r Rhaglen am wobrau ffilm neu deledu neu fel arall i’w chyflwyno i’w harddangos neu am wobr mewn unrhyw ŵyl ffilm neu deledu;]

ix) trwy ymarfer yr Hawliau Marsiandïaeth;

“Hawliau Iaith Saesneg”: yr hawl i Arddangos y Rhaglen gydag elfennau yn yr iaith Saesneg gan gynnwys traciau sain, isdeitlau, sain-ddisgrifio, cymwysiadau rhyngweithiol a graffeg ond ar yr amod ei fod yn cael ei wneud fel ychwanegiad i Arddangos y Rhaglen yn Gymraeg ac nid fel arddangosiad Saesneg annibynnol;

“Hawliau Marsiandïaeth”: yr hawl i ymelwa ar yr hawliau marsiandïaeth yn y Rhaglen gan gynnwys fformat y rhaglen, Deunydd Hawliau Gwaelodol, cymeriadau, golygfeydd, logos a chynlluniau mewn cysylltiad â phob math o gynhyrchion gan gynnwys nwyddau sain, nwyddau clyw-weledol, marsiandïaeth cymeriadau, llyfrau, cylchgronau a deunydd cyhoeddi arall;

“Hawliau Neilltuedig”: yr hawl ecsgliwsif yn ystod cyfnod yr Ataliad ac (oni bai y datgenir yn y diffiniadau hyn neu rywle arall yn yr Aseiniad hwn, bod yr hawl yn ecsgliwsif, lle y bydd yn parhau i fod yn ecsgliwsif os felly), yr hawl an-ecsgliwsif am weddill y Cyfnod i ymelwa ar fersiwn Cymraeg y Rhaglen a phob rhan ohoni (gan gynnwys y trac sain) yn yr un modd â pherchennog yr hawlfraint mewn unrhyw a phob dull a modd ym mhob cyfrwng sy’n hysbys ar hyn o bryd neu a ddyfeisir wedi hyn, boed yn analog neu’n ddigidol, yn llinol neu’n rhyngweithiol, ar-lein, all-lein neu’n ddiwifr a chan gynnwys;

i) yr Hawliau Darlledu a’r Hawliau Cyfryngau Newydd;
ii) yr Hawliau Hyrwyddo;
iii) yr Hawliau Rhaglen/Cyfres Ddilynol;
iv) yr Hawliau Ad-drosglwyddo;
v) Hawliau yr ERA;
vi) Hawliau Iaith Saesneg;
vii) yr Hawliau Addysgol;
viii) yr Hawliau Cyhoeddi Cerddoriaeth;
ix) yr Hawliau Marsiandïaeth;
x) yr Hawliau Theatrig;
xi) yr Hawliau An-Theatrig;
xii) perchnogaeth o a theitl llwyr yn y Deunyddiau Cyfleu;
xiii) yr Hawliau Adnewyddu;
xiv) yr Hawliau Clipiau;
xv) yr Hawliau Gwefan;
xvi) yr holl hawliau atodol eraill sy’n ofynnol gan S4C er mwyn cyflawni ei dyletswyddau a’i chyfrifoldebau statudol gan gynnwys yr hawl i gadw copi o’r Rhaglen fel y’i darlledwyd am byth, yr hawl i gadw copïau o’r Rhaglen mewn fformatau technegol amrywiol er mwyn galluogi S4C i baratoi gwahanol fersiynau o’r Rhaglen e.e. fersiwn iaith deuol, fersiwn iaith arwyddion, fersiwn wedi’i is-deitlo, fersiwn gyda sain-ddisgrifiad ac ati;

xvii) yr hawl i aseinio ac/neu is-drwyddedu ac/neu awdurdodi eraill i ymarfer yr Hawliau Neilltuedig.

"Hawliau Rhaglen/Cyfres Ddilynol": yr hawl i wneud neu gomisiynu Rhaglen/Cyfres Ddilynol;

"Hawliau Theatrig": yr hawl i arddangos y Rhaglen yn gyhoeddus mewn unrhyw ddull neu fodd ac mewn unrhyw gyfrwng i gynulleidfa sydd wedi talu i gael mynediad i'r man lle y byddant yn gweld y Rhaglen;

"Incwm Gros y Cynhyrchydd": yr holl enillion y mae'r Cynhyrchydd, ei asiantau a'i ddosbarthwyr yn eu derbyn o weithredu'r Hawliau Ad-aseiniedig;

"Incwm Gros S4C": incwm a dderbynnir gan S4C o ymarfer yr Hawliau Marsiandïaeth, yr Hawliau Theatrig, yr Hawliau An-Theatrig, yr Hawliau Adnewyddu a'r Hawliau Cyfryngau Newydd ond heb gynnwys unrhyw incwm sy'n deillio o ymarfer gweddill yr Hawliau Neilltuedig, y bydd gan S4C yr hawl unigryw ac ecsgliwsif iddo;

"Polisi Archif TAC": polisi dethol, storio ac archifo TAC sy'n berthnasol i raglenni a gynhyrchir ar gyfer S4C, y mae'r cyfryw bolisi wedi cael ei baratoi gan TAC trwy ymgynghori ag S4C. Mae copi o Bolisi Archif TAC ar gael yma.

"Polisi Clipiau a Deunydd Craidd": y Polisi Clipiau a Deunydd Craidd a gytunir rhwng S4C a TAC fel y'i adolygir bob blwyddyn ac a gyhoeddir ar wefannau y naill a'r llall yma ac sy'n cynnwys y ffioedd sy'n daladwy am ddefnyddio Clipiau a Deunydd Craidd;

"Rhaglen": y rhaglen (ni) a restrir yn yr Atodiad ac unrhyw fersiwn o'r Rhaglen mewn iaith arall neu unrhyw addasiad neu fersiwn diwygiedig ohoni mewn unrhyw iaith gan gynnwys heb gyfyngiad unrhyw raglen neu gyfres sy'n cynnwys neu'n ymgorffori yr un deunydd neu gynnwys rhaglen (boed yn yr un drefn neu drefniant neu mewn trefn neu drefniant gwahanol) ac unrhyw raglen wedi'i seilio ar yr un fformat â'r Rhaglen a/neu sydd fel arall yn deillio o'r Rhaglen a/neu ei chynhyrchu a/neu'r Deunydd Craidd;

"Rhaglen/Cyfres Ddilynol": rhaglen/cyfres ddilynol i'r Rhaglen, ailwneuthuriad o'r Rhaglen neu raglen/cyfres sy'n rhagflaenu'r Rhaglen neu raglen neu gyfres wedi'i seilio ar neu sy'n cynnwys elfennau o'r Rhaglen neu fformat y Rhaglen a waeth os yw'r cyfryw raglen/cyfres ddilynol yn portreadu digwyddiadau sydd yn digwydd cyn, yn gyfamserol â neu'n dilyn y digwyddiadau a bortreadir yn y Rhaglen o ran rhediad amser;

"S4C Analog": y gwasanaeth teledu analog 'S4C';

"S4C Digidol": y gwasanaeth teledu digidol 'S4C Digidol" a ddarlledwyd am y tro cyntaf ar 15 Tachwedd 1998;

"S4C2": y gwasanaeth teledu digidol a sefydlwyd gan S4C2 Cyf, un o Gwmnïau Teulu S4C;

"Sianel S4C newydd": unrhyw sianel neu wasanaeth teledu a sefydlir wedi dyddiad yr Aseiniad hwn y mae S4C neu unrhyw un o Gwmnïau Teulu S4C yn berchen arni yn gyfan gwbl neu'n bennaf, ac sy'n wasanaeth teledu cyhoeddus yn yr iaith Gymraeg yn bennaf ac, a dargedir at gynulleidfa yn y DU (er y gall talgylch y lloeren fod yn ehangach na'r DU lle y mae'r fath wasanaeth yn cael ei ddarparu trwy loeren) ac sydd ar gael yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd (ac eithrio unrhyw gostau y mae'n rhaid i danysgrifwyr gwasanaethau teledu lloeren neu gebl eu talu am gyflenwi'r sianelau trwy gyfrwng teledu lloeren neu deledu cebl ond lle nad yw'r tanysgrifwyr yn talu ffi neu bris uwch am y rhaglenni a ddarlledir);

"Taliadau Ailddarlledu a Gweddill-daliadau": y ffioedd ail-ddangos, defnyddio, gweddill-daliadau a breindaliadau sy'n daladwy gan S4C yn unol â'r Cytundeb Comisiynu mewn perthynas ag ymarfer yr Hawliau Neilltuedig neu sy'n daladwy gan y Cynhyrchydd neu ei is-drwyddedeion mewn perthynas ag ymarfer yr Hawliau Ad-aseiniedig;

"Tiriogaeth": y DU, ar yr amod ei fod yn cael ei gydnabod gan y Cynhyrchydd:-

(i) (o ganlyniad i'r ffaith anorfod na ellir cyfyngu signalau lloeren nad sydd wedi eu hamgryptio i ffiniau cenedlaethol) y gall darllediadau o Wasanaethau S4C gael eu derbyn ledled talgylch y lloeren Astra 2A neu'r cyfryw loeren(nau) eraill a ddefnyddir i drosglwyddo Gwasanaethau S4C arnynt o bryd i'w gilydd; ac

(ii) bod yr Hawliau Neilltuedig yn cynnwys rhai hawliau ad-drosglwyddo penodol y tu allan i'r Tiriogaeth; ac

(iii) y gellir derbyn Gwasanaethau S4C y tu allan i'r Diriogaeth o'r trosglwyddyddion analog a digidol sy'n gwasanaethu Cymru ac yn sgil dulliau eraill o ymarfer yr Hawliau Neilltuedig gan gynnwys trwy gyfrwng Cyfryngau Newydd;

ac na fydd unrhyw un o'r uchod yn goblygu bod S4C yn tarfu ar yr Hawliau Ad-aseiniedig;

"TPW": system dosbarthu gwasanaethau rhaglenni teledu a/neu wasanaethau mewn fformat digidol yn unig trwy gyfrwng system ddosbarthu teledu tanysgrifiol sy'n rhwydwaith aml-dderbynnydd ond sydd wedi ei gyfyngu i'r rai sydd yn tanysgrifio yn unig a gyfleir drwy PW ('IP') neu LTD ('DSL');

"Trwyddedau sy'n Bodoli Eisoes": yr holl drwyddedau a threfniadau sy'n bodoli eisoes, boed yn rhai ysgrifenedig neu ar lafar, rhwng S4C a thrydydd parti neu bartïon mewn perthynas â'r Rhaglen (y nodir eu manylion yn yr Atodiad) ac unrhyw adnewyddiadau ohonynt ac estyniadau iddynt.

1.2 Bydd unrhyw gyfeiriad at unrhyw statud neu ddarpariaeth statudol yn cael ei ddehongli fel pe bai yn cynnwys cyfeiriad at y statud neu'r ddarpariaeth statudol honno fel y'i amrywir, newidir, ymestynnir neu ei hail-weithredir o bryd i'w gilydd, boed hynny cyn neu ar ôl dyddiad yr Aseiniad hwn, ac at bob offeryn statudol, gorchymyn a rheoliad sy'n amrywio, newid a/neu ymestyn y fath statud neu ddarpariaeth.

1.3 Oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd geiriau sy'n dynodi'r unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb a bydd geiriau sy'n dynodi'r naill ryw yn cynnwys y llall a bydd geiriau sy'n dynodi personau yn cynnwys cyrff corfforaethol, cymdeithasau anghorfforedig a phartneriaethau ac i'r gwrthwyneb.

1.4 Pwrpas penawdau y Cymalau yn yr Aseiniad hwn yw rhoi arweiniad yn unig ac ni fwriedwyd iddynt gyfyngu ar eiriad unrhyw Gymal.

1.5 Pan fo'r Cynhyrchydd yn cynnwys mwy nag un person neu endid cyfreithiol, bydd pob un o'r personau a'r endidau hynny yn atebol ar y cyd ac yn unigol am gyflawni a chydymffurfio ag oblygiadau, gwarantau ac ymrwymiadau'r Cynhyrchydd dan yr Aseiniad hwn.

1.6 Bydd yr ymadrodd "gan gynnwys" yn golygu "gan gynnwys ond heb gyfyngiad".

2. Aseiniad

2.1 I'r fath raddau eu bod wedi eu breinio yn S4C yn sgil y Cytundeb Comisiynu ond nid fel arall, mae S4C trwy hyn yn aseinio'r Hawliau Ad-aseiniedig i'r Cynhyrchydd.

2.2 Mae'r Ad-aseiniad yn ddarostyngedig i'r Hawliau Neilltuedig, yr Ataliad, y Trwyddedau sy'n Bodoli Eisoes, y Cytundebau Trydydd Parti ac amodau a thelerau'r Aseiniad hwn. Cedwir yr Hawliau Neilltuedig yn llwyr ac yn ecsgliwsif gan S4C yn y Diriogaeth a thrwy gydol y Cyfnod.

2.3 Nid yw S4C yn rhoi unrhyw warant nac ymrwymiad, boed yn benodol neu'n ymhlyg, o ran yr Hawliau Ad-aseiniedig na'u digonolrwydd na gallu'r Cynhyrchydd neu ei is-drwyddedeion i'w gweithredu nac ynghylch pa ddeunyddiau technegol neu Ddeunydd Craidd sydd ar gael. Y Cynhyrchydd a'r Cynhyrchydd yn unig fydd yn gyfrifol am gost a risg ymelwa ar yr Hawliau Ad-aseiniedig a thalu a gweinyddu unrhyw daliadau ailddarlledu, gweddill-daliadau a thaliadau tebyg, a bydd y Cynhyrchydd yn indemnio S4C yn unol â Chymal 20 yn erbyn pob atebolrwydd sy'n codi o'r uchod.

3. Hawliau Neilltuedig

3.1 Bydd gan S4C yr hawl i ymarfer yr Hawliau Neilltuedig yn ddigyfyngiad yn ystod y Cyfnod. Yn ystod cyfnod yr Ataliad, cedwir yr Hawliau Neilltuedig yn llwyr ac yn ecsgliwsif gan S4C. Wedi i r Ataliad ddod i ben, bydd yr Hawliau Neilltuedig yn an-ecsgliwsif, **ac eithrio lle y nodir yn y diffiniadau neu rywle arall yn yr Aseiniad hwn, eu bod yn unigryw ac ecsgliwsif.**

3.2 Wrth ymarfer yr Hawliau Neilltuedig, bydd S4C yn talu Taliadau Ailddarlledu a Gweddill-daliadau ond ni fydd fel arall yn atebol dros wneud unrhyw daliadau pellach i'r Cynhyrchydd neu unrhyw drydydd parti ac eithrio fel y nodir yn y Polisi Clipiau a Deunydd Craidd.

4. Y Cytundeb Comisiynu

4.1 Ac eithrio i'r fath raddau ei fod yn cael ei amrywio yn benodol gan yr Aseiniad hwn, bydd y Cytundeb Comisiynu yn parhau mewn grym ac effaith lawn ar yr amod mai'r Aseiniad hwn fydd yn rhagori os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Cytundeb Comisiynu a'r Aseiniad hwn.

4.2 Ail-adroddir a chadarnheir pob gwarant, ymrwymiad a chytundeb ar ran y Cynhyrchydd a gynhwysir yn y Cytundeb Comisiynu trwy hwn ar y dyddiad hwn fel pe baent wedi'u nodi'n llawn yn yr Aseiniad hwn.

5. Yr Ataliad

5.1 Mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu, yn ymrwymo ac yn cytuno na fydd, yn ystod cyfnod yr Ataliad, yn ymelwa ar, yn trwyddedu, yn awdurdodi nac yn caniatáu unrhyw ymelwa ar y Rhaglen (neu unrhyw ran ohoni gan gynnwys Clipiau a'r Deunydd Craidd) neu'r Hawliau Rhaglen/Cyfres Ddilynol yn y Diriogaeth mewn unrhyw ddull neu fodd neu mewn unrhyw gyfrwng sy'n hysbys ar hyn o bryd neu a ddyfeisir wedi hyn. Bydd y fath Ataliad yn berthnasol (heb gyfyngiad) i ddarllediadau neu arddangosiadau eraill o'r Rhaglen a dderbynnir yn y Diriogaeth neu a allai gael eu derbyn yn y Diriogaeth.

5.2 Ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod yr Ataliad cychwynnol, gall S4C ymestyn cyfnod yr Ataliad o ddwy (2) flynedd ychwanegol trwy dalu ffi yn unol â'r Tablau Ffioedd.

5.3. Wedi i'r Ataliad ddod i ben, ni fydd y Cynhyrchydd yn trwyddedu unrhyw hawliau o unrhyw fath bynnag i unrhyw ddarlledwr neu sianel trydydd parti y mae eu gwasanaeth yn gallu cael ei dderbyn ar unrhyw blatfform yn y Diriogaeth nac yn ymelwa ar neu'n awdurdodi unrhyw ymelwa ar yr Hawliau Cyfryngau

Newydd mewn unrhyw ran o'r byd heb ganiatâd ysgrifenedig S4C ymlaen llaw. Ni fydd S4C yn gwrthod rhoi ei chaniatâd yn afresymol.

6. Hawliau Marsiandïaeth

6.1 Er y gall S4C greu Elw Net S4C wrth ymarfer yr Hawliau Marsiandïaeth, mae hyn yn eilradd i'w brif ddiben sef ychwanegu gwerth i brofiad y gwylwyr o wylio'r Rhaglen, hyrwyddo'r Rhaglen a Gwasanaethau S4C a bodloni disgwyliadau gwylwyr y bydd nwyddau sy'n atodol i'r Rhaglen, ar gael.

6.2 Er gwaethaf y ffaith bod yr Ataliad wedi dod i ben, bydd yr Hawliau Marsiandïaeth yn parhau i fod yn ecsgliwsif i S4C o ran y nwyddau a awdurdodir gan y Trwyddedau sy'n Bodoli Eisoes neu a gynhyrchwyd gan neu ar ran S4C cyn dyddiad yr Aseiniad hwn. Lle bo trwyddedai dan Drwydded sy'n Bodoli Eisoes yn dymuno ymestyn y Drwydded sy'n Bodoli Eisoes i gynnwys ffurfiau ychwanegol (e.e. trwyddedai fideo sy'n dymuno cynhyrchu dad) neu adnewyddu cyfnod y Drwydded sy'n Bodoli Eisoes, bydd gan S4C yr hawl i awdurdodi hynny ar sail ecsgliwsif, a hynny gymaint o weithiau ag y mae'n dymuno. Bydd yr amodau a fydd yn sail i hynny (gan gynnwys cyfran (os o gwbl) y Cynhyrchydd o unrhyw Elw Net S4C) yn cael eu trafod mewn ewyllys da rhwng y Cynhyrchydd ac S4C a, nes ceir cytundeb, bydd S4C yn cadw Elw Net S4C.

6.3 Bydd S4C a'r Cynhyrchydd yn cysylltu â'i gilydd cyn ymelwa ar yr Hawliau Marsiandïaeth er mwyn sicrhau nad yw eu cynlluniau yn tramgwyddo unrhyw hawliau a roddir i drydydd partïon eisoes.

6.4 Wrth ymarfer yr Hawliau Marsiandïaeth, mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu, yn ymrwymo ac yn cytuno y bydd yn cydymffurfio â'r broses gymeradwyo, fel y'i chyhoeddwyd a'i diweddarwyd gan S4C o bryd i'w gilydd. Gellir gweld y broses gymeradwyo gyfredol yma.

7. Ceisiadau am Gopïau Preifat

Bydd S4C yn cyfeirio ceisiadau gan aelodau'r cyhoedd am gopïau o'r Rhaglen at ddibenion gwylio preifat, at y Cynhyrchydd. Mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu, yn cytuno ac yn ymrwymo y bydd yn delio â cheisiadau o'r fath yn unol â'r Canllawiau ar Gopïau Preifat.

8. Hawliau Theatrig a Hawliau An-Theatrig

8.1 Pan fydd yr Ataliad yn dod i ben, bydd S4C a'r Cynhyrchydd yn cysylltu â'i gilydd cyn gweithredu unrhyw rai o'r Hawliau Theatrig neu'r Hawliau An-Theatrig, gan gymryd ystyriaeth o safbwyntiau ei gilydd. Os bydd y

Cynhyrchydd ac S4C yn dymuno ymarfer neu awdurdodi unrhyw ymarfer o'r Hawliau Theatrig a'r Hawliau An-Theatrig yn yr un lleoliad, bydd penderfyniad S4C yn rhagori.

8.2 Rhennir yr Elw Net o ymarfer yr Hawliau Theatrig yn unol â Chymal 17.1.

8.3 Wrth ymarfer yr Hawliau Theatrig, bydd S4C a'r Cynhyrchydd yn gweithredu'r egwyddorion canlynol:-

8.3.1 pan godir ffi ar y gynulleidfa, bydd Cymal 8.2 yn weithredol;

8.3.2 pan gweithredir yr Hawliau Theatrig er budd elusen gofrestredig neu achos da, ni chodir ffi drwyddedu er y gall y trefnydd godi tâl mynediad gweinyddol bach ar y gynulleidfa;

8.3.3 bydd cymryd rhan mewn digwyddiadau megis gwyliau ffilm a arddangosiadau swyddogol preifat heb gost i'r trefnwyr.

9. Cydnabyddiaethau

9.1 Bydd S4C yn rhoi cydnabyddiaeth i'r Cynhyrchydd ar unrhyw ddeunydd hyrwyddo neu farchnata a gyhoeddir gan neu ar ran S4C o ran y Rhaglen, i'r graddau bod hynny'n ymarferol yn rhesymol ym marn S4C.

9.2 Wrth ymarfer yr Hawliau Ad-aseiniedig, bydd y Cynhyrchydd yn sicrhau ei fod ef a'i drwyddedeion a'i aseineion yn rhoi cydnabyddiaeth i S4C ar bob nwydd, deunydd pecynnu, cyhoeddusrwydd a deunydd arall a gynhyrchir, ac ar bob darllediad o'r Rhaglen, y cyfryw gydnabyddiaeth i fod mewn ffurf a gymeradwywyd gan Reolwr Cyhoeddiadau S4C.

10. Hawl i Gopiau o'r Gwaith Papur a deunydd arall

10.1 Lle nad yw'r Cynhyrchydd wedi cadw copïau o'r gwaith papur a oedd yn ffurfio rhan o'r Deunyddiau Cyfleu gwreiddiol, bydd S4C (i'r graddau ei bod wedi cadw copïau y mae'n hawdd cael gafael arnynt ac yn amodol ar ddod i gytundeb gyda'r Cynhyrchydd ynghylch unrhyw gostau cysylltiedig) yn darparu copïau i'r Cynhyrchydd cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol yn dilyn derbyn ei gais.

10.2 Ar gais a chost y Cynhyrchydd (gan gynnwys cost amser gweinyddol), bydd S4C yn darparu'r cyfryw ddeunydd technegol (gan gynnwys tapiau dyblyg ac isdeitlau) sydd ar gael. Nid yw hyn yn amharu ar hawliau a rhwymedïau S4C dan y Cytundeb Comisiynu os na fydd y Cynhyrchydd wedi llwyddo i gadw copi wrth-gefn o'r Rhaglen mewn lleoliad addas.

11. Polisi Archif TAC

Mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu, yn cytuno ac yn ymrwymo:-

11.1 y bydd yn gweithredu Polisi Archif TAC mewn perthynas â'r Rhaglen;

11.2 na fydd yn dinistrio nac yn awdurdodi unrhyw un i ddinistrio unrhyw dapiau neu ddeunyddiau gwreiddiol eraill sy'n perthyn i'r Rhaglen (gan gynnwys prif dapiau, gwaith papur a Deunydd Craidd) heb sicrhau caniatâd ysgrifenedig S4C ymlaen llaw;

11.3 Os bydd S4C o'r farn bod y Cynhyrchydd yn torri amodau'r Cymal hwn, gall S4C roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cynhyrchydd yn mynnu ei fod yn cyfleu'r holl ddeunyddiau a'r ddogfennaeth wreiddiol a/neu gopïau ohonynt a nodir yn y rhybudd, i S4C yn ddi-oed.

12. Hawliau Rhaglen/Cyfres Ddilynol

12.1 Caiff yr Hawliau Rhaglen/Cyfres Ddilynol eu neilltuo yn llwyr ac yn ecsgliwsif i S4C yn ystod cyfnod yr Ataliad ac, yn ddarostyngedig i weddill y Cymal hwn, byddant yn an-ecsgliwsif wedi i'r Ataliad ddod i ben.

12.2 Os bydd S4C yn penderfynu comisiynu Rhaglen/Cyfres Ddilynol, bydd yn hysbysu'r Cynhyrchydd, a bydd gan y Cynhyrchydd saith (7) diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad i hysbysu S4C yn ysgrifenedig a yw'n dymuno cynhyrchu'r Rhaglen/Cyfres Ddilynol. Bydd cyfnod trafod o wyth diwrnod ar hugain (28) yn dilyn hyn (a fydd yn cael ei gyfrif o'r dyddiad y mae S4C yn derbyn hysbysiad y Cynhyrchydd). Os na fydd S4C a'r Cynhyrchydd wedi cytuno ar holl amodau'r comisiwn arfaethedig o fewn y cyfryw gyfnod o wyth diwrnod ar hugain (28) neu os na fydd S4C yn derbyn hysbysiad gan y Cynhyrchydd o fewn y saith (7) diwrnod angenrheidiol, bydd S4C yn rhydd i ddyfarnu'r comisiwn i drydydd parti neu bartïon. Os bydd polisi tendro S4C neu'r gyfraith sy'n ymwneud â chaffael cyhoeddus yn newid fel ei/eu f/bod yn gwrthdaro â'r Cymal hwn, ystyrir bod y Cymal hwn wedi'i ddileu ac yn ddi-rym.

12.3 Ni fydd y Cynhyrchydd yn ymarfer yr Hawliau Rhaglen/Cyfres Ddilynol yn ystod cyfnod yr Ataliad. Ar ôl i'r Ataliad ddod i ben, ni fydd yn gwneud hynny mewn unrhyw iaith heb hysbysu S4C yn ysgrifenedig o'i fwriad i wneud hynny mewn digon o fanylder fel y gall S4C benderfynu a yw'n dymuno bod yn gysylltiedig â'r fath Raglen/Cyfres Ddilynol. Bydd y Cynhyrchydd yn darparu y fath fanylion ychwanegol ag y gall S4C wneud cais amdanynt wedi hynny.

12.4 Wedi cael hysbysiad dan Gymal 12.3, bydd gan S4C gyfnod o bedwar diwrnod ar ddeg (14) Diwrnod Gwaith i hysbysu'r Cynhyrchydd yn ysgrifenedig a oes

ganddo ddiddordeb mewn cydariannu'r Rhaglen/Cyfres Ddilynol neu greu fersiwn o'r Rhaglen/Cyfres Ddilynol yn y Gymraeg ar ôl ei chwblhau.

12.5 Os na fydd y Cynhyrchydd wedi derbyn y fath hysbysiad wedi i'r cyfryw gyfnod o bedwar ar ddeg (14) Diwrnod Gwaith ddod i ben, bydd ganddo yr hawl (yn ddarostyngedig i Gymal 12.6) i symud ymlaen gyda'r Rhaglen/Cyfres Ddilynol heb gyfranogiad S4C.

12.6 Lle bo S4C yn hysbysu'r Cynhyrchydd nad yw'n dymuno cyfranogi yn y broses o ariannu neu greu refersiwn o'r Rhaglen/Cyfres Ddilynol (neu os ystyrir dan Gymal 12.5 nad yw'n dymuno gwneud hynny), ni fydd gan y Cynhyrchydd yr hawl i symud ymlaen gyda Rhaglen/Cyfres Ddilynol nes bydd S4C wedi cymeradwyo ffurf y cydnabyddiaeth er budd S4C i ymddangos ar y Rhaglen/Cyfres Ddilynol, cyfran o Elw Net y Cynhyrchydd i'w thalu i S4C fesul y Rhaglen/Cyfres Ddilynol ac unrhyw drefniadau eraill sy'n ymwneud â'r Rhaglen/Cyfres Ddilynol ac ymelwa arni, y bydd S4C yn barnu'n berthnasol.

12.7 Os bydd S4C yn rhoi y fath hysbysiad i'r Cynhyrchydd yn ystod y cyfryw gyfnod o bedwar ar ddeg (14) diwrnod, ni chaiff y Cynhyrchydd symud yn ei flaen i gyn-gynhyrchu neu gynhyrchu'r Rhaglen/Cyfres Ddilynol oni bai a hyd nes byddant wedi cytuno ar yr amodau o ran ariannu, cynnwys golygyddol personél allweddol a chynhyrchu'r fersiwn Cymraeg y Rhaglen/Cyfres Ddilynol ac o ran unrhyw gyfnodau yr ataliad (gan gynnwys a ddylid ailgychwyn cyfnod yr Ataliad o ran y Rhaglen a'r holl gyfresi blaenorol ohoni er mwyn iddo ddod i ben ar yr un pryd â'r cyfnod yr ataliad ar gyfer y Rhaglen/Cyfres Ddilynol).

13. Clipiau a Deunydd Craidd

13.1 Yn ystod cyfnod yr Ataliad, bydd gan y Cynhyrchydd (yn amodol ar gytundeb ysgrifenedig S4C ymlaen llaw), yr hawl i ddefnyddio Clipiau a Deunydd Craidd heb fod dros ddeg eiliad ar hugain o hyd, ac ni ddylai'r Clipiau a'r Deunydd Craidd mewn cyfanswm fod yn fwy na 10% o hyd go iawn y Rhaglen neu 5 munud at ei gilydd, pa un bynnag yw'r byrraf, ar ei wefan er mwyn hyrwyddo ei fusnes.

13.2 Ar yr amod bod y Cynhyrchydd (neu ei aseinai a gymeradwywyd gan S4C yn ysgrifenedig) yn bodoli o hyd, bydd unrhyw ymarfer ar yr Hawliau Clipiau gan S4C neu ei gyflenwyr yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cynhyrchydd. Ni fydd angen y fath gymeradwyaeth pan fydd yr Hawliau Clipiau yn cael eu hymarfer ar y cyd â'r Hawliau Hyrwyddo. Bydd ymarfer yr Hawliau Clipiau ar y cyd â'r Hawliau Hyrwyddo yn rhad ac am ddim o ran y Clipiau ac yn ddarostyngedig i dâl (os o gwbl) i'w drafod o ran y Deunydd Craidd. Cyfeirir ceisiadau am gymeradwyaeth at yr unigolyn a enwir yn yr Atodiad neu unrhyw unigolyn arall y gall y Cynhyrchydd hysbysu S4C o'i enw yn ysgrifenedig o bryd i'w gilydd. Ni fydd ei gymeradwyaeth yn cael ei wrthod neu ei oedi heb achos da

(e.e. bod y Clip yn cynnwys deunydd hawlfraint trydydd parti na ellir ei glirio). Os na cheir ymateb o fewn pum (5) Diwrnod Gwaith o ddyddiad unrhyw gais am gymeradwyaeth, bernir y rhoddwyd y gymeradwyaeth.

13.3 Os bydd y Cynhyrchydd yn gwrthod rhoi ei ganiatâd i ddefnyddio unrhyw Glipiau neu Ddeunydd Craidd mewn rhaglen newydd ar gyfer S4C, bydd gan y Cynhyrchydd neu gyflenwr y rhaglen newydd yr hawl i gyfeirio'r anghydfod hwnnw at gomisiynydd S4C ar gyfer y fath raglen newydd yn gyntaf. Os na all y comisiynydd ddatrys yr anghydfod, bydd gan y Cynhyrchydd neu gyflenwr y rhaglen newydd yr hawl i gyfeirio'r mater at Gyfarwyddwr Comisiynu S4C. Os na fydd modd datrys yr anghydfod o hyd, bydd yn cael ei gyfeirio at Brif Weithredwr S4C, a bydd ei phenderfyniad hi yn derfynol. Bydd gan y Prif Weithredwr yr hawl i ofyn i'r partïon roi crynodeb o'u safbwyntiau yn ysgrifenedig a gofyn iddynt fynychu cyfarfod neu gyfarfodydd i ddatrys y mater. Ni fydd gweithdrefn o'r fath yn amharu ar hawliau a rhwymedïau cyfreithiol S4C.

13.4 Lle bo S4C yn ystyried hynny'n ymarferol, bydd ffynhonnell y Clipiau a'r Deunydd Craidd yn cael ei gydnabod yn y cydnabyddiaethau ar ddiwedd rhaglenni S4C y maent yn ymddangos ynddynt neu (gyda chaniatâd comisiynydd perthnasol S4C) o fewn y cyfryw raglen.

13.5 O ran defnyddio Clipiau a Deunydd Craidd, bydd S4C neu ei gyflenwyr yn talu ffioedd yn unol â'r Polisi Clipiau a Deunydd Craidd. Ni fydd S4C yn atebol am unrhyw fethiant gan ei gyflenwyr i dalu ffioedd o'r fath.

14. Hawliau Hyrwyddo

14.1 Bydd gan y Cynhyrchydd yr hawl i hyrwyddo a marchnata'r Rhaglen y tu allan i'r Diriogaeth, ac ar ôl cyfnod yr Ataliad (gyda chaniatâd ysgrifenedig S4C ymlaen llaw), yn y Diriogaeth. Wrth wneud hynny, bydd y Cynhyrchydd yn cydweithredu ag adran farchnata S4C i sicrhau nad yw ei gynlluniau yn amharu ar gynlluniau S4C ac nad ydynt yn tanseilio brand S4C neu'r Rhaglen neu unrhyw ddarllediad o'r Rhaglen gan S4C.

14.2 Bydd y Cynhyrchydd yn cynorthwyo S4C gyda'i gwaith i hyrwyddo'r Rhaglen. Bydd y defnydd o Glipiau yn rhad ac am ddim. Bydd defnyddio'r Deunydd Craidd yn ddarostyngedig i drafodaethau unigol ynghylch y ffi (os o gwbl). Ni fydd y Cynhyrchydd yn gwrthod cymeradwyo'r ffi arfaethedig yn afresymol.

14.3 Bydd S4C yn ceisio rhoi cydnabyddiaeth i'r Cynhyrchydd mewn deunydd hyrwyddo a gyhoeddir gan neu ar ran S4C o ran y Rhaglen, i'r fath raddau bod S4C yn ystyried hynny'n ymarferol.

15. Gwefannau

Bydd gan y Cynhyrchydd yr hawl i greu gwefannau eraill wedi'u selio ar y Rhaglen neu yn ymgorffori unrhyw elfen ohoni yn ystod cyfnod yr Ataliad ar yr amod ei fod yn sicrhau caniatâd ysgrifenedig S4C ymlaen llaw. Ni fydd S4C yn gwrthod rhoi ei chaniatâd yn afresymol. Bydd yn rhesymol i S4C wrthod rhoi ei chaniatâd dan yr amgylchiadau canlynol heb gyfyngiad:-

15.1 pan na fydd y wefan yn bodloni safonau technegol S4C;

15.2 pan fydd S4C o'r farn nad yw'r wefan yn cyd-fynd â natur, naws neu gynnwys y Rhaglen, neu'n tanseilio neu'n adlewyrchu'n wael ar y Rhaglen neu S4C;

15.3 pan na fydd y wefan yn cyd-fynd â strategaeth hyrwyddo a marchnata S4C; neu

15.4 pan fydd yn cael ei awgrymu mai hon yw gwefan swyddogol S4C.

Ac eithrio fel y nodir yng **Nghymal 13,** ni chaiff y Cynhyrchydd ddangos neu awdurdodi neu ganiatáu i unrhyw drydydd parti ddangos unrhyw Glipiau neu Ddeunydd Craidd ar unrhyw Gyfryngau Newydd.

16. Deunydd 'Mynediad i Deledu'

Lle bo S4C wedi comisiynu deunydd mynediad i deledu ar gyfer y Rhaglen (megis isdeitlau, iaith arwyddion a sain-ddisgrifiad), bydd S4C ar dderbyn cais ysgrifenedig y Cynhyrchydd (ac ar yr amod nad oes rwystr cyfreithiol neu gytundebol yn ei hatal rhag gwneud hynny), yn darparu copïau ohonynt i'w defnyddio gan y Cynhyrchydd wrth iddo weithredu'r Hawliau Ad-aseiniedig AR YR AMOD BOD y Cynhyrchydd yn talu ffioedd S4C fel y'u pennir gan S4C o bryd i'w gilydd.

17. Elw Net a Rhoi Cyfrif

17.1 Ac eithrio fel y nodir isod o ran gweithredu'r hawliau canlynol, telir 30% o Elw Net y Cynhyrchydd i S4C a thelir 30% o Elw Net S4C i'r Cynhyrchydd:-

17.1.1 Bydd yr Elw Net o weithredu'r Hawliau Cyfryngau Newydd gan y naill barti neu'r llall yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng S4C a'r Cynhyrchydd;

17.1.2 Bydd yr Elw Net o weithredu'r Hawliau Adnewyddu lle bo S4C neu ei his-ddosbarthwyr yn rhoi hawliau i drwyddedai o dan Drwydded sy'n Bodoli Eisoes mewn cyfrwng nas trwyddedwyd dan y Drwydded sy'n Bodoli Eisoes, yn ddarostyngedig i gytundeb rhwng y Cynhyrchydd ac S4C (neu ei is-ddosbarthwyr fel y bo'n

briodol) ymhob achos unigol.

17.2 Telir unrhyw arian sy'n daladwy yn unol â Chymal 17.1 cyn pen trigain (60) diwrnod o ddiwedd y Chwarter y'i derbyniwyd gan y Cynhyrchydd neu S4C yn ôl y galw.

17.3 Cyn pen trigain (60) diwrnod o ddiwedd pob Chwarter y derbynnir Incwm Gros, bydd y Cynhyrchydd / S4C (fel y bo'n briodol) yn darparu datganiad i'r llall o'r Elw Net (os o gwbl) sy'n daladwy i'r llall o ran y Chwarter hwnnw. Bydd gan S4C a'r Cynhyrchydd, eu cynrychiolwyr a/neu eu cyfrifwyr yr hawl i archwilio holl lyfrau cyfrifon perthnasol y llall a bydd ganddynt hawliau archwilio llawn (trwy dalu eu costau eu hunain) o ran y rhain yn ystod oriau busnes arferol ac ar ôl rhoi rhybudd rhesymol. Os bydd unrhyw archwiliad neu archwiliad manwl o'r fath yn datgelu tandalu o dros ddeg (10) y cant, bydd y parti sy'n gwneud y tandaliad yn talu'r costau proffesiynol rhesymol a ddioddefwyd gan y llall o gynnal archwiliad neu archwiliad manwl o'r fath.

18. Gwarantau'r Cynhyrchydd

Mewn cydnabyddiaeth am yr Ad-aseiniad, mae'r Cynhyrchydd yn gwarantu, yn ymrwymo ac yn cytuno ag S4C:-

18.1 na fydd y Cynhyrchydd yn gwystlo neu fel arall yn llyffetheirio'r Rhaglen neu'n creu unrhyw lien dros y Rhaglen, ar wahân i'r hyn sy'n codi yng nghwrs arferol busnes;

18.2 na fydd yn gwneud unrhyw addewid (penodol neu ymhlyg) nac yn rhoi unrhyw warant ar ran S4C mewn unrhyw ffordd i unrhyw drydydd parti;

18.3 na fydd mewn unrhyw ffordd yn addo credyd S4C;

18.4 wrth weithredu'r Hawliau Ad-aseiniedig, na fydd yn gwneud nac yn hepgor gwneud unrhyw beth yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol sy'n niweidiol i fuddiannau S4C neu i'r berthynas gytundebol rhwng S4C ag unrhyw drydydd partïon;

18.5 na fydd yn peri neu'n caniatáu unrhyw beth a allai niweidio neu beryglu neu darfu ar yr Hawliau Neilltuedig. Heb amharu ar natur gyffredinol yr uchod, ni fydd y Cynhyrchydd yn ildio unrhyw hawl gweithredu S4C o ran y Rhaglen, boed yn codi cyn neu ar ôl dyddiad yr Aseiniad hwn;

18.6 y bydd yn hysbysu S4C yn syth gan ddarparu manylion llawn am yr holl achosion o dorri neu dramgwyddo neu achosion posibl o dorri neu dramgwyddo'r Hawliau Neilltuedig ac unrhyw hawl, teitl neu fudd arall sy'n perthyn i S4C ac o unrhyw hawliad gwirioneddol neu a gaiff ei fygwth gan unrhyw drydydd parti a allai effeithio ar yr Hawliau Neilltuedig y mae'r Cynhyrchydd yn ymwybodol ohonynt;

18.7 bod ganddo yr awdurdod i ymrwymo i'r Aseiniad hwn a chyflawni ei holl ymrwymiadau dan yr Aseiniad hwn;

18.8 y bydd yn gyfrifol am yr holl daliadau a allai fod yn ddyledus o ran ymelwa ar yr Hawliau Ad-aseiniedig;

18.9 na fydd yn gwneud neu'n hepgor gwneud unrhyw beth y gallai ei wneud neu fethu ei wneud olygu bod S4C neu ei Chwmnïau Teulu yn torri'r Cytundebau Trydydd Parti neu'r Trwyddedau sy'n Bodoli Eisoes, neu a allai ddwyn anfri ar S4C neu unrhyw rai o'i Chwmnïau Teulu;

18.10 y bydd, wrth fanteisio ar yr Hawliau Ad-aseiniedig, yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth gwarchod data perthnasol wrth drin data a gwybodaeth y mae'n cael gafael ynddo neu y mae'n meddu arno;

18.11 o ran pob ymelwa ar yr Hawliau Ad-aseiniedig, y bydd yn adrodd i'r DPRS yn unol â'r gofynion o bryd i'w gilydd a gytunwyd arnynt rhwng y DPRS ar un llaw, a'r cynhyrchwyr, y darlledwyr a'r dosbarthwyr ar y llaw arall;

18.12 y bydd, wrth ymelwa ar yr Hawliau Ad-aseiniedig, yn sicrhau yn gytundebol na fydd gweithredu'r Hawliau Neilltuedig gan S4C (gan gynnwys y gorlifo y cyfeiriwyd ato yn niffiniad y"Diriogaeth") yn tramgwyddo'r hawliau a roddwyd gan y Cynhyrchydd (neu ei is-ddosbarthwyr neu asiantau) i'w d/trwyddedeion;

18.13 y bydd gan S4C yr hawl i geisio nawdd mewn perthynas ag unrhyw ymelwa ar y Rhaglen a gosod hysbysebion o'i chwmpas ac yn ystod toriadau hysbysebu y Rhaglen;

18.14 y bydd yn cydymffurfio â'r cynlluniau ar gyfer ymelwa ar yr Hawliau Ad-aseiniedig y cytunwyd arnynt ac a nodwyd yn y ffurflen gynnig sydd ynghlwm â'r Atodiad, ac y bydd yn gwneud ei orau i gynhyrchu Incwm Gros y Cynhyrchydd hyd yr eithaf;

18.15 y bydd yn cynnal, ar draul ei hun, yswiriant atebolrwydd cynnyrch mewn swm digonol er mwyn diogelu'r Cynhyrchydd ac S4C yn erbyn unrhyw a phob hawliad, achos, colled neu iawndâl sy'n codi o unrhyw ddiffygion go iawn neu honedig yn y cynhyrchion a gynhyrchir wrth i'r Cynhyrchydd a/neu is-ddosbarthwyr a thrwyddedeion y Cynhyrchydd ymarfer yr Hawliau

Marsiandïaeth, a bydd y cyfryw yswiriant atebolrwydd cynnyrch yn cael ei ddarparu gan gwmni yswiriant cydnabyddedig o safon;

18.16 y bydd, ar draul a chost y Cynhyrchydd yn unig, yn cymryd pob cam sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau a diogelu'r hawlfraint a'r holl hawliau eraill yn y Rhaglen yn unol â chyfarwyddiadau (os o gwbl) S4C;

18.17 na fydd y Cynhyrchydd yn cynhyrchu nac yn dosbarthu unrhyw eitemau diffygiol neu is-safonol wrth weithredu'r Hawliau Marsiandïaeth a bydd yn sicrhau bod yr holl gynhyrchion o'r ansawdd uchaf, gan sicrhau bod ei aseineïon a'i drwyddedeion yn cydymffurfio â'r Cymal hwn;

18.18 y bydd y Cynhyrchydd yn talu pob swm sy'n ddyledus i S4C dan yr Aseiniad hwn yn brydlon, ac os bydd unrhyw daliad yn hwyr, codir llog o 1½% uwch ben cyfradd fenthyca sylfaenol Banc Cymru ccc ar yr holl symiau o'r fath, wedi'i gyfrif o'r dyddiad dyledus nes dyddiad y taliad;

18.19 Y bydd yr holl gynhyrchion a gynhyrchir wrth weithredu'r Hawliau Marsiandïaeth, o safon uchel ac o'r fath arddull, ymddangosiad ac ansawdd ag sy'n ddigonol ac sy'n addas er ymelwa arnynt i'r fantais orau o ran y Rhaglen, ac nad ydynt yn adlewyrchu'n anffafriol ar S4C;

18.20 y bydd unrhyw a phob ymelwa ar yr Hawliau Ad-aseiniedig yn cael ei gyflawni ac y bydd yr holl gynhyrchion yn cael eu cynhyrchu, eu gwerthu a'u dosbarthu yn unol â'r holl gyfreithiau perthnasol;

18.21 y bydd gan S4C drwydded ddi-droi-n'ôl ac an-ecsgliwsif ar gyfer yr holl waith celf a gynhyrchir gan y Cynhyrchydd a'i is-drwyddedeion i ddefnyddio'r fath waith celf yn y Diriogaeth yn rhad ac am ddim.

19. Indemniad

Bydd y Cynhyrchydd yn indemnio ac ar bob amser yn parhau i indemnio S4C yn llawn rhag ac yn erbyn pob colled (gan gynnwys heb gyfyngiad, unrhyw golli refeniw neu golled economaidd arall), treuliau, cais, hawliad, ymgyfreitha, achos, cost, iawndâl neu daliadau a ddioddefir neu a delir neu a ddyfernir yn erbyn, unrhyw iawndâl y cytunwyd arno neu unrhyw atebolrwyddo ba bynnag ac ym mha bynnag fodd sy'n codi o ganlyniad i ymarfer yr Hawliau Ad-aseiniedig neu o unrhyw dorri neu ddiffyg cydymffurfio ganddo o'r holl neu unrhyw rai o addewidion, oblygiadau, ymrwymiadau neu warantau'r Aseiniad hwn neu sy'n codi mewn unrhyw ffordd neu o ganlyniad i unrhyw weithred esgeulus neu anghyfiawn neu unrhyw ddiffyg cyflawni ganddo neu ei weithwyr, ei asiantai, ei is-gontractwyr llawrydd neu ei wahoddedigion gan gynnwys hawliadau gan berchnogion hawliau neu gyfranwyr i'r Rhaglen a hawliadau parthed cynhyrchion diffygiol.

20. Tor-amod gan y Cynhyrchydd neu ei Ansolfedd

Heb amharu ar unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill y gallai fod gan S4C, os bydd:-

20.1 y Cynhyrchydd yn torri unrhyw un neu fwy o'i ymrwymiadau dan yr Aseiniad hwn neu'r Cytundeb Comisiynu na ellir ei ddatrys ym marn S4C neu, os oes modd ei ddatrys, nad yw'n cael ei ddatrys cyn pen 7 diwrnod o gael rhybudd ysgrifenedig gan S4C sy'n mynnu bod y fath dor-amod yn cael ei ddatrys; neu

20.2 os bydd y Cynhyrchydd yn trosglwyddo, yn gwaredu neu'n bygwth trosglwyddo neu waredu unrhyw ran o'i asedau, sy'n debygol ym marn S4C o atal neu rwystro yn sylweddol y Cynhyrchydd rhag gyflawni ei ymrwymiadau dan yr Aseiniad hwn neu'r Cytundeb Comisiynu; neu

20.3 os caiff y Cynhyrchydd ei ddatgan yn fethdalwr neu'n ansolfent neu os na fydd yn gallu talu ei ddyledion o fewn ystyr Adran 123 Deddf Ansolfedd 1986; neu

20.4 os bydd y Cynhyrchydd yn cynnull cyfarfod o'i gredydwyr neu os bydd yn cynnig neu'n gwneud unrhyw drefniant neu gyfaddawd gydag neu unrhyw aseiniad er lles ei gredydwyr neu os cyflwynir deiseb neu os caiff cyfarfod ei gynnull er mwyn ystyried cynnig neu os caiff camau eraill eu cymryd er mwyn dirwyn y Cynhyrchydd i ben (ac eithrio er mwyn ei ail-lunio yn wirfoddol neu ei gyfuno ag endid arall ac os bydd hyn yn dilyn) neu os bydd llyffetheiriwr yn cymryd meddiant ar neu os penodir ymddiriedolwr, derbynnydd, gweinyddwr, derbynnydd gweinyddol, diddymwr neu unrhyw swyddog tebyg parthed ei holl fusnes neu unrhyw ran o'i fusnes neu ei asedau neu os caiff unrhyw atafaeliad, gweithrediad neu unrhyw broses gyfreithiol arall ei bygwth, ei chaffael neu ei gorfodi ar unrhyw asedau o'r fath;

bydd y canlyniadau fel y nodir yng Nghymal 22.

21. Goblygiadau tor-amod gan neu ansolfedd y Cynhyrchydd

21.1 Bydd yr Hawliau Ad-aseiniedig yn dychwelyd yn llwyr i S4C yn syth wedi i S4C roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cynhyrchydd, ac ni fydd gan y Cynhyrchydd unrhyw hawl, teitl neu fudd ynddynt wedi hynny; a

21.2 bydd y cyfamod er sicrwydd pellach a'r pŵer atwrnai y darparwyd ar ei gyfer yng Nghymal 23, yn weithredol; a

21.3 bydd y Cynhyrchydd yn darparu manylion ysgrifenedig llawn i S4C ynghylch unrhyw ymarfer o'r Hawliau Ad-aseiniedig gan y Cynhyrchydd cyn dyddiad y refersiwn (sef y dyddiad pan roddwyd y rhybudd gan S4C) ynghyd â chopïau o'r

holl gytundebau yr ymrwymodd y Cynhyrchydd iddynt wrth ymarfer yr Hawliau Ad-aseiniedig.

22. Cyfamod er sicrwydd pellach

Mae'r Cynhyrchydd yn ymrwymo i wneud unrhyw a phob gweithred ac i gyflawni unrhyw a phob dogfen yn y fath fodd ac yn y fath leoliadau ag y gall S4C eu mynnu yn ôl disgresiwn llwyr S4C er mwyn diogelu, perffeithio neu orfodi unrhyw rai o'r hawliau sy'n cael eu rhoi neu eu cadarnhau i S4C yn unol â'r Aseiniad hwn. Os na fydd y Cynhyrchydd wedi llwyddo i weithredu neu gyflawni unrhyw weithred neu ddogfen o'r fath cyn pen saith (7) Diwrnod Gwaith o dderbyn cais ysgrifenedig gan S4C, mae'r Cynhyrchydd yn awdurdodi S4C i wneud y weithred honno neu gyflawni'r ddogfen honno yn enw ac ar ran y Cynhyrchydd a bydd unrhyw awdurdod a phenodiad o'r fath yn dod i rym fel penodiad di-droi-n'ôl yn unol ag Adran 4 Deddf Pwerau Atwrnai 1971.

23. Hawliau Gweithredu

Bydd gan S4C yr hawl unigryw ac ecsgliwsif i gychwyn a chynnal unrhyw a phob achos neu ymgyfreitha y mae S4C yn ôl disgresiwn llwyr ei hun yn ystyried yn angenrheidiol er mwyn sefydlu, cynnal neu ddiogelu unrhyw rai o hawliau S4C heb amharu ar hawl S4C i ddwyn y Cynhyrchydd fel pleintydd i mewn i unrhyw achos o'r fath ac mae'r Cynhyrchydd yn cadarnhau na fydd ganddo unrhyw hawl, teitl na budd mewn unrhyw arian y mae S4C yn ei adfer yn sgil ymgyfreitha neu achos o'r fath. Os na fydd y Cynhyrchydd yn cydweithredu ag S4C, gall S4C ddefnyddio'r pŵer atwrnai y cyfeiriwyd ato yng Nghymal 23. Bydd S4C yn indemnio'r Cynhyrchydd yn erbyn y costau, ffioedd a threuliau rhesymol y cytunwyd arnynt ymlaen llaw a dioddefir gan y Cynhyrchydd o ganlyniad i ddwyn y Cynhyrchydd i mewn i unrhyw achos o'r fath fel pleintydd AR YR AMOD na fydd yr indemniad hwn yn weithredol a bydd y Cynhyrchydd yn talu ei gostau ei hun lle y bo S4C wedi gweithredu ei hawliau dan y Cymal hwn o ganlyniad i ryw dor-amod neu esgeulustod ar ran y Cynhyrchydd, ei staff (llawrydd neu fel arall) neu ei asiantau.

24. Cyfrinachedd

24.1 Mae naill barti a'r llall yn cydnabod ei fod wedi bod neu y bydd mewn sefyllfa i dderbyn, cael gwybod neu i ddarganfod Gwybodaeth Gyfrinachol.

24.2 Bydd y ddau barti bob amser yn cadw holl Wybodaeth Gyfrinachol y parti arall yn breifat ac yn gyfrinachol a ni fydd a bydd yn sicrhau na fydd ei bersonél yn datgelu, yn gwneud yn gyhoeddus nac yn cyfathrebu i unrhyw berson neu bersonau boed hynny cyn, yn ystod neu ar ôl yr Aseiniad hwn, y Wybodaeth Gyfrinachol neu unrhyw ran ohoni neu unrhyw wybodaeth arall y mae'n dod ar ei thraws yn ystod ac o ganlyniad i'r Aseiniad hwn ar yr amod na fydd datgelu gan S4C dan FOIA neu i Ofcom neu i'r DPRS neu fel arall yn unol â'r gyfraith,

yn tor-amod o'r Cymal hwn na'r Cymal canlynol.

24.3 Bydd y ddau barti yn cymryd pob cam a gofal angenrheidiol er mwyn sicrhau bod yr holl Wybodaeth Gyfrinachol a dderbynnir oddi wrth y parti arall dan, neu mewn cysylltiad â'r Aseiniad hwn:-

24.3.1 dim ond yn cael ei rhoi i'r cyfryw o'i bersonél a chynghorwyr neu ymgynghorwyr proffesiynol sydd wedi eu cyflogi i roi cyngor iddo mewn perthynas â'r Aseiniad hwn ag sy'n hollol angenrheidiol er mwyn cyflawni'r Aseiniad hwn neu am resymau cyfreithiol neu gyfrifyddu;

24.3.2 yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac na fydd yn cael ei datgelu (heb gymeradwyaeth ysgrifenedig y perchennog ymlaen llaw) neu ei defnyddio gan unrhyw bersonél neu'r cyfryw ymgynghorwyr neu gynghorwyr proffesiynol ac eithrio at ddibenion yr Aseiniad hwn a'i orfodi.

25. Darpariaethau Cyffredinol

25.1 Ni fydd y Cynhyrchydd yn rhoi unrhyw hawl, trwydded, cydsyniad na chaniatâd i unrhyw barti arall a allai dramgwyddo neu darfu ar yr Hawliau Neilltuedig.

25.2 Bydd gan S4C yr hawl i drwyddedu neu aseinio budd yr Hawliau Neilltuedig. Gall y Cynhyrchydd is-drwyddedu ei hawliau trwy hyn ond ni fydd yn aseinio'r Hawliau Ad-aseiniedig i unrhyw drydydd parti heb sicrhau caniatâd ysgrifenedig S4C.

25.3 Heb gyfyngu ar ei hawliau i wrth-gyfrif o dan gyfraith gwlad, bydd gan S4C yr hawl i osod yr holl arian sy'n ddyledus iddi neu y mae ganddi yr hawl iddo fel arall (boed o dan yr Aseiniad hwn neu o ganlyniad i unrhyw setliad neu ddyfarniad sy'n goblygu bod iawndâl neu indemniad yn ddyledus iddi) gan y Cynhyrchydd o bryd i'w gilydd yn erbyn ac i'w didynnu o'r holl arian sy'n ddyledus gan S4C i'r Cynhyrchydd dan yr Aseiniad hwn neu unrhyw gytundeb neu drefniant arall.

25.4 Y cyfeiriad a roddir i bob parti yn yr Aseiniad hwn fydd y cyfeiriad perthnasol er mwyn cyflwyno hysbysiadau nes bydd y naill barti yn hysbysu'r llall o gyfeiriad newydd yn y Deyrnas Unedig.

25.5 Bernir bod rhybudd wedi cael ei gyflwyno ar y Diwrnod Gwaith dilynol os caiff ei gyflwyno â llaw neu os caiff ei gyflwyno i Swyddfa Bost wedi'i gyfeirio'n gywir ac os talwyd y gost o'i ddosbarthu trwy gyfrwng post dosbarth

cyntaf ymlaen llaw, neu os caiff ei anfon trwy gyfrwng neges e-bost i'r cyfeiriad e-bost cywir ac os na cheir rhybudd nad yw wedi cael ei dderbyn. Bydd unrhyw gyfnod o rybudd a nodir yn yr Aseiniad hwn yn cychwyn ar y dyddiad y tybir i'r rhybudd gael ei gyflwyno yn sgil yr uchod a bydd yn cynnwys dydd Sadyrnau, dydd Suliau a Gwyliau Cyhoeddus.

25.6 Ni fydd unrhyw ildiad gan barti o unrhyw dorri ar unrhyw rai o ddarpariaethau'r Aseiniad hwn yn effeithiol oni chaiff ei nodi yn ysgrifenedig.

25.7 Ni fydd unrhyw fethiant neu oedi wrth weithredu unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi dan yr Aseiniad hwn mewn unrhyw amgylchiadau yn amharu ar y cyfryw hawl, pŵer neu rwymedi nac yn gweithredu fel ildiad ohono. Ni fydd unrhyw ymarferiad unigol neu rannol gan unrhyw barti i'r Aseiniad hwn o unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi dan yr Aseiniad hwn, mewn unrhyw amgylchiadau yn atal unrhyw ymarfer arall neu bellach ohono, nac ar unrhyw ymarfer o unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi arall.

25.8 Mae'r hawliau, y pwerau a'r rhwymedïau a ddarparir yn yr Aseiniad hwn yn gronnol ac nid ydynt yn nacau unrhyw hawliau, pwerau neu rwymedïau a ddarperir gan y gyfraith.

25.9 Ni fernir unrhyw ildiad neu dorri ar neu fethiant i weithredu unrhyw rai o amodau'r Aseiniad hwn fel ildiad o unrhyw dorri neu fethiant hwyrach ac ni fydd mewn unrhyw fodd yn effeithio ar amodau eraill yr Aseiniad hwn.

25.10 Os bydd unrhyw ddarpariaeth yn yr Aseiniad hwn yn cael ei gwahardd gan Lys neu ei dyfarnu yn anghyfreithlon, yn ddi-rym neu'n un na ellir ei weithredu gan Lys, bydd y fath ddarpariaeth yn cael ei thorri o'r Aseiniad hwn i'r graddau sy'n angenrheidiol, a'i hystyried yn aneffeithiol, cyn belled ag y bo modd gwneud hynny heb newid darpariaethau'r Aseiniad hwn sy'n weddill ac ni fydd yn effeithio ar unrhyw amgylchiadau eraill neu ddilysrwydd neu weithredu'r Aseiniad hwn mewn unrhyw fodd.

25.11 Mae'r Aseiniad hwn yn nodi'r cytundeb cyfan gwbl rhwng y partïon iddo mewn cysylltiad â thestun yr Aseiniad hwn ac mae'n disodli'r holl gytundebau ac ymrwymiadau blaenorol sy'n ymwneud â chynhyrchu'r Rhaglen ac nid yw unrhyw barti wedi dibynnu ar unrhyw ddatganiad heblaw am y datganniadau a nodir yn benodol yn yr Aseiniad hwn.

25.12 Dehonglir yr Aseiniad hwn fel cytundeb a wnaethpwyd yng Nghymru ac yn sy'n ddarostyngedig i Gyfreithiau Cymru a Lloegr ac yn ddarostyngedig i awdurdodaeth ecsgliwsif Llysoedd Cymru a Lloegr.

25.13 Nid yw'r Aseiniad hwn yn creu nac yn breinio unrhyw hawliau o dan y Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 a ellir eu gweithredu gan unrhyw un nad ydynt yn barti i'r Aseiniad hwn ac eithrio Cwmnïau Teulu S4C ac

unrhyw olynydd mewn teitl neu is-drwyddedai o S4C neu ei Chwmnïau Teulu a fyddant â'r hawl i weithredu'r Aseiniad hwn.

Arwyddwyd a chytunwyd arno dros ac ar ran S4C gan gynrychiolydd awdurdodedig:

……. ……. (teitl)

Arwyddwyd a chyflawnwyd fel gweithred dros ar ac ar ran y Cynhyrchydd gan gynrychiolydd awdurdodedig:

……. ……. (teitl)

Atodiad

Rhaglen

Cytundeb Comisiynu y cytundeb rhwng S4C a'r Cynhyrchydd dyddiedig [ ].

Trwyddedau sy'n Bodoli Eisoes*[nodwch y manylion gan gynnwys copïau]*

Dyddiad darlledu cyntaf (er mwyn cyfrif cyfnod yr Ataliad)

Cytundebau Trydydd Parti [dylid nodi a chynnwys copïau]

Dylid cyfeirio ceisiadau am Glipiau a Deunydd Craidd at:

Mae'r Ffurflen Gynnig ynghlwm

Amodau Arbennig: